RhAG Abertawe

Ymateb i gynnig Cyngor Dinas a Sir Abertawe

I gynyddu maint ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw o Ionawr 2021

ac

I gynyddu maint ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan o Ionawr 2021

Hefyd

I gau Ysgol Gymraeg Felindre

Cyswllt:

Heini Gruffudd (Cadeirydd)

RhAG Abertawe

Hafan, 2 Lôn Rhianfa, Abertawe SA1 6DJ

heini@gruffudd.org

RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn fudiad a sefydlwyd yn 1952 i annog datblygiad addysg Gymraeg.

Caiff ei noddi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r mudiad yn cynrychioli rhieni disgyblion mewn ysgolion Cymraeg, ac mae mewn cyswllt cyson ag ysgolion Cymraeg.

Cyffredinol

1. Mae RhAG wedi dadlau'n gyson bod angen cynyddu nifer a chanran disgyblion Abertawe sydd mewn addysg Gymraeg.
2. Mae amcanion RhAG wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru, sy'n anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
3. Rydyn ni'n rhannu gweledigaeth Llywodraeth Cymru bod angen i gynghorau lleol greu'r galw am addysg Gymraeg, yn hytrach na dim ond ymateb i'r galw.

Dalglych Ysgol Tirdeunaw

1. Rydyn ni'n bryderus bod Ysgol Tirdeunaw'n cael ei adleoli. Mae Ysgol Tirdeunaw wedi ennill ei phlwyf yn ei hardal, ac wedi datblygu'n ysgol eithriadol o lwyddiannus, gan gyflwyno addysg Gymraeg mewn ardal gymharol ddifreintiedig. Ein dewis cyntaf fyddai gweld yr ysgol yn cael ei hail adeiladu ar ei safle ei hun.
2. O symud yr adeilad i Heol Gwyrosydd, rydym yn croesawu'r cyfle i gael adeiladau newydd gyda'r cyfleusterau gorau.
3. Rydym hefyd yn croesawu bod ysgol Gymraeg yn cael ei sefydlu'n nes at ardal Trefansel / Cwmbwrla / Blaenymaes, sydd wedi'u hamddifadu o addysg Gymraeg hwylus ers symud Ysgol Gymraeg Cwmbwrla i Fynymôr yn 1976.
4. Mae tystiolaeth ddigonol (gw. y map isod) bod canrannau sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yn amrywio yn ôl presenoldeb ysgol Gymraeg o fewn cyrraedd hwylus.
5. Mae modd barnu y bydd canrannau ardal Penlan yn cynyddu, a'r ardaloedd newydd a ddaw o fewn dalgylch Tirdeunaw.
6. Yn yr un modd, mae modd barnu y bydd peth colled o ardal Mynydd-bach a Threboeth.
7. Mae'n ymddangos bod amryfusedd yn ffigurau disgyblion ardal Tirdeunaw yn y ddogfen 'Astudiad Effaith Cymunedol YGG Tirdeunaw'. Meddir yno yn y tabl cyntaf bod 211 o ddisgyblion Tirdeunaw yn dod o ddalgylch Tirdeunaw, ond yn yr ail dabl, y rhif yw 183. Mae angen cywiro hyn.
8. Nid yw'r ymgynghoriad, yn yr Astudiaeth o effaith ar y Gymraeg, yn sôn am effaith ieithyddol symud yr ysgol o'r chymuned bresennol, ac eithrio crybwyll niferoedd disgyblion. Mae angen ystyriaeth o'r effaith ar gymuned Treboeth, a'r cysylltiadau ieithyddol a diwylliannol.
9. Er bod yma sôn am newid dalgylchoedd, gydag Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn trosglwyddo Blaenymaes, Cadle, Clwyd, Gendros a Portmead i Ysgol Tirdeunaw, nid oes awgrym yma sut i gael effaith wirioneddol ar y gorlenwi difrifol sydd yn Ysgol Pont-y-brenin. Mae angen brys am ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol rhwng Gorseinon – Pentre'r ardd a Phenllergaer, a dylai'r ddogfen nodi hyn fel rhan o gyd-destun ehangach yr ymgynghoriad. Mae angen i'r adroddiad gynnwys niferoedd y disgyblion sy'n cael eu heffeithio yn y cyd-destun hwn.

Dalgylch Ysgol Tan-y-lan

10. Rydym yn croesawu y bydd gan Ysgol Tan-y-lan dir sylweddol ar gyfer cynyddu. Mae'r ysgol wedi dioddef ers ei chychwyn. Pan sefydlwyd yr ysgol yn un 0.5, bu i ni ddadlau bod angen ysgol 1.0 neu 1.5 yn Nhreforys a gwireddwyd ein dadleuon.
11. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, bod symud yr ysgol i'r Clas yn golygu bod yr ysgol yn bell o rannau helaeth o Ward Treforys. Rydym am weld ysgol Gymraeg yn gwasanaethu prif ardaloedd poblog Treforys.
12. Nid yw'r arolwg effaith ar y Gymraeg yn nodi effaith tynnu Ysgol Tan-y-lan i ffwrdd i brif ganolfannau poblogaeth Treforys, o Blasmarl i Ynystawe. Bydd effaith hyn yn negyddol. Tra bod symud yr ysgol i'r Clas yn denu disgyblion o ardal arall, mae'r symud yn pwysleisio'r angen am Ysgol Gymraeg i Dreforys, a dylai fod sôn yn y ddogfen am hyn.
13. Yn sgil hyn, rydym am gynnig bod adeilad Tan-y-lan yn cael ei gadw ar gyfer addysg Gymraeg, o bosib fel lleoliad dosbarth meithrin /derbyn. Yn dilyn hyn rydym am weld ysgol Gymraeg ychwanegol yn cael ei sefydlu yn Nhreforys, o bosib ar dir rhwng croes Treforys ac Ynysforgan.

Dalgylchoedd eraill

14. Nid oes rheswm digonol dros newid rhai o'r dalgylchoedd eraill. Mae Ysgol Bryn-y-môr eisoes yn llawn, ond mae'r ddogfen am i blant Seaview a Townhill fynd yno. Er bod y rhain o fewn dwy filltir o gerdded i Bryn-y-mo̧r, mae'r daith yno'n un ar hyd strydoedd llawn traffig, ac mae'n anodd dychmygu rheini'n cerdded eu plant i lawr i Walter Road, yna trwy'r Uplands ac ar hyd y strydoedd eraill i gyrraedd Bryn-y-môr. Byddai hyn yn peri nad yw addysg Gymraeg ar gael yn hwylus i'r rhain. Mae dadl gref dros ddal i gynnwys y plant hyn yn nalgylch Login Fach, fel eu bod, trwy gludiant, yn cael mynediad hwylus i addysg Gymraeg.
15. Mae Cymal 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi bod ar awdurdodau lleol ddyletswydd i "hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg" wrth drefnu cludiant dysgwyr.
16. Mae angen i'r Sir drafod y dalgylchoedd gyda phenaethiaid yr ysgolion Cymraeg presennol er mwyn cael cytundeb cyffredinol a fudd o les i'r disgyblion ac a fydd yn hyrwyddo addysg Gymraeg.

Niferoedd derbyn a chyllid

17. Rydym yn pryderu na fydd y Sir yn llwyddiannus yn ei chais am arian i gynyddu darpariaeth Gymraeg, os yw'r rhestr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Gweinidog Eluned Morgan yn un derfynol. Bydd gan hyn oblygiadau sylweddol i gynnydd addysg Gymraeg yn ôl y wybodaeth a roddi yn ymgynghoriad y sir.
18. Gan fod cynnig y sir yn nodi y bydd dalgylch Ysgol Tan-y-lan yn meddiannu rhan fawr o ddalgylch presennol Tirdeunaw – o Langyfelach i Dreboeth ac i fyny i'r Clas – nid ydym o'r farn y bydd nifer derbyn o 45 yn ddigon. Mae gan Ysgol Tan-y-Lan ar hyn o bryd ryw 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn bob blwyddyn. Byddai derbyn 45 yn golygu mai dim ond 15 o ddisgyblion a allai gael eu derbyn o'r ardaloedd dalgylch newydd, sy'n amlwg yn afresymol o annigonol. Ni fyddai derbyn 45 yn caniatáu unrhyw dwf i addysg Gymraeg yn Nhreforys.
19. Yn sgil hyn rydym yn gwrthwynebu agor Tan-y-lan i dderbyn 45 disgybl. Mae'n hanfodol ei bod o'r cychwyn yn derbyn 60, gyda phosibilrwydd i gynyddu, ac i gael ysgol Gymraeg arall yn Nhreforys.

20. Mae'r un cyfyngu ar faint Tirdeunaw, os methir cael arian i gynyddu darpariaeth Gymraeg. Os caiff Tirdeunaw ei chyfyngu i 60, bydd hyn yn rhy fach ar gyfer y newid dalgylch a'r twf a fydd yn digwydd yn sgil hyn. Mae'n hanfodol bod Tirdeunaw yn gallu derbyn 75.
21. Mae'r gwahaniaeth ariannol rhwng darparu hanner dosbarth ychwanegol yn y ddwy ysgol a pheidio â gwneud hynny'n gymharol fach, ac yn debygol o esgor ar wario llawer mwy maes o law pan ddaw'n amlwg bod y niferoedd derbyn o 45 a 60 yn annigonol. Argymhellwn fod y Sir yn bwrw ymlaen gyda'r cynlluniau ar gyfer ysgolion o 60 a 75, gan fenthyca arian i wneud hyn, oni cheir arian cyfalaf ychwanegol o du'r Llywodraeth.

Ysgol Felindre

22. Rydym yn bryderus ein bod wedi cael ffigurau gwahanol gan y Sir, yn ein cyfarfodydd gyda swyddogion addysg y Sir, wrth drafod Felindre. Meddwyd wrthym mai 15 o blant oedd yn Felindre, ond gwelwn yn ôl y cynnig presennol bod yno 20 o blant amser llawn ac y bydd 5 o blant meithrin yno ym mis Medi.
23. Mae cynnig y Sir wedi dod cyn cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Addysg bod angen rhoi sylw cadarnhaol i ysgolion gwledig. Yn sgil hyn, rydym yn gofyn i'r Sir ailystyried y cynnig i gau Ysgol Felindre, gan roi sylw i batrymau eraill o redeg yr ysgol, o bosib o dan bennaeth Ysgol Tan-y-lan neu Dirdeunaw a phosibiliadau ffederaleiddio.
24. Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu nifer helaeth o dai ger yr M4, rhwng Llangyfelach a Felindre. Rydym am weld y Sir yn sicrhau y caiff Ysgol Gymraeg ei sefydlu ar y safle yma pan ddaw'r tai, a bod Ysgol Felindre'n cael ei chadw'n agored tan y caiff yr Ysgol Gymraeg newydd hon ei sefydlu.

Barn

25. **Tirdeunaw**: Yr ateb mwyaf boddhaol fyddai ailadeiladu Ysgol Tirdeunaw ar ei safle presennol.
26. O weithredu o fewn y cynnig presennol, rydym yn falch o weld ysgol Gymraeg ar dir Bryn Tawe, ond rydym o'r farn ei bod yn hanfodol bod gan yr Ysgol Tirdeunaw newydd nifer derbyn o 75.
27. **Tan-y-lan**: Rydym yn croesawu bod Ysgol Tan-y-lan yn cael safle newydd. Serch hynny, oherwydd bod yr ysgol yn mynd i wasanaethu dalgylch newydd, rydym yn credu ei bod yn hanfodol fod gan yr ysgol nifer derbyn o 60.
28. Gan fod yr ysgol newydd yn mynd i fod ymhell o brif ardaloedd poblog Treforys, rydym am i'r Sir gadw adeilad presennol Tan-y-lan ar gyfer disgyblion meithrin/derbyn, ac rydym am i'r Sir sefydlu ysgol Gymraeg ychwanegol ar dir rhwng Treforys ac Ynysforgan.
29. **Felindre:** Rydym am i'r Sir ystyried ffyrdd o gadw Felindre ar agor nes y sefydlir Ysgol Gymraeg newydd yn sgil adeiladu ystâd o dai ger yr M4.

Wardiau : %au'n mynychu ysgolion Cymraeg
Wards : %s attending Welsh medium schools



Ysgol gynradd Gymraeg
Welsh medium primary school

Ysgol uwchradd Gymraeg
Welsh medium secondary school

Disgyblion mewn ysgolion Cymraeg (2016):
Pupils in Welsh medium schools (2016):

Abertawe / Swansea 4593 13.1%

- Mae'r % sy'n mynychu ysgolion Cymraeg bob amser yn uwch na chyfartaledd Abertawe mewn ardaloedd sy'n agos at ysgolion Cymraeg.
- Mae'r % bob amser yn is na chyfartaledd Abertawe lle does dim ysgol Gymraeg ar gael yn hwylus.

- *The % attending Welsh medium schools is always higher than the Swansea average in the vicinity of Welsh medium schools.*
- *The % is always lower than the average when there is no Welsh medium school available locally.*

* Mae'r % mewn addysg Gymraeg yn Nhreforys a Bon-y-maen yn tyfu, gan fod yr ysgolion yn newydd.
* The % in Welsh medium education in Morriston and Bon-y-maen is increasing as the schools are new.